**Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (123)**

**Pleidleisiau A Thrafodion Dydd Mawrth, 8 Mawrth 2005**

## Dechreuodd y Cyfarfod am 2pm

**Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru**
Atebwyd y 12 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 9 yn ôl.

**......................................**

**2.51pm**
**Datganiad Busnes**
Bu i dros 10 Aelod wrthwynebu’r datganiad busnes.
Cynhaliwyd pleidlais ar y datganiad busnes:
O Blaid 29; Ymatal 0; Yn erbyn 25; Cyfanswm 54
Cytunwyd ar y datganiad busnes

**......................................**

## 3.02pm

***Ni chynhaliwyd dadl ar yr eitem hon. Cynhaliwyd pleidlais arni’n syth.***

**Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25**

NDM2335 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 24.25:

1. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 1 Mawrth 2005 ar y Gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2005; a

b) Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Cychwyn Rhif 2 a

Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2005 yn cael ei wneud yn unol â:
i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Chwefror 2005
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 1 Mawrth 2005

2. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 1 Mawrth 2005 ar y Rheoliadau drafft, Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2005; a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2005 yn cael ei wneud yn unol â:
i) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Chwefror 2005
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 1 Mawrth 2005

3. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Chwefror 2005 ar y Gorchymyn drafft, Gorchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion a Gymeradwywyd) (Diwygio) (Cymru) 2005; a

b) Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion a Gymeradwywyd) (Diwygio) (Cymru) 2005 yn cael ei wneud yn unol â:
i) y mae'r Gorchymyn Drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Ionawr 2005
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Chwefror 2005
iii) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Chwefror 2005

4. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Chwefror 2005 ar y Rheoliadau drafft, Rheoliadau Salmonela mewn Heidiau Dodwy (Pwerau Arolygu) (Cymru) 2005; a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Salmonela mewn Heidiau Dodwy (Pwerau Arolygu) (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol â:
i) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Ionawr 2005
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Chwefror 2005
iii) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Chwefror 2005

5. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Chwefror 2005 ar y Rheoliadau drafft, Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Diwygio) 2005; a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Diwygio) 2005 yn cael eu gwneud yn unol â:
i) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Chwefror 2005
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Chwefror 2005
iii) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Chwefror 2005

6. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Chwefror 2005 ar y Rheoliadau drafft, Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Cymru) 2005;

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol â:
i) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Chwefror 2005
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Chwefror 2005
iii) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd mewn e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 1 Mawrth 2005

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 48; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 48
**Derbyniwyd y cynnig**

**......................................**

**3.03pm**

***Cynnig i drafod y 2 eitem ganlynol gyda'i gilydd â phleidleisiau ar wahân***

**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio) (Cymru) 2005**

NDM2336 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio) (Cymru) 2005, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Chwefror 2005.

**Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:**
**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Yn credu y byddai darparu gofal personol am ddim ar gyfer yr henoed yn diogelu eu hurddas ac yn osgoi sarhad prawf modd.

NDM2326 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Chwefror 2005 mewn perthynas â'r Rheoliadau drafft, Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio) (Cymru) 2005; a

2. Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio) (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol â:
a) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Chwefror 2005
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Chwefror 2005

**3.27pm**
Yn unol â Rheol Sefydlog 6.24, gofynnodd mwy na 3 Aelod am i'r gloch gael ei chanu

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 1 i egwyddor y Rheoliadau**
O blaid 14; Ymatal 11; Yn erbyn 29; Cyfanswm 54
**Gwrthodwyd Gwelliant 1 i egwyddor y Rheoliadau**

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Rheoliadau**
O blaid 54; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 54
**Cymeradwywyd egwyddor y Rheoliadau**

**Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:**
**Gwelliant 1 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**, **Michael German OBE (Dwyrain De Cymru), Mick Bates (Sir Drefaldwyn)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn penderfynu gwneud y gwelliannau canlynol i Reoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio) (Cymru) 2005 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Chwefror 2005:

Yn rheoliad '20A Capital limit – Wales' dileu '£21,000' a rhoi '£60,000' yn ei le ac yn rheoliad '28A Calculation of tariff income from capital – Wales' dileu '£21,000' a rhoi '£60,000' yn ei le.

**Datganiad o'r Diben a'r Costau**

**Diben**
Diben y gwelliant yw ymestyn ymhellach ofal personol rhad ac am ddim i bobl y mae ei angen arnynt drwy godi'r terfyn cyfalaf uchaf lle gall cynghorau orfodi pobl i werthu eu cartrefi er mwyn talu am ofal.

**Costau**
Cost y gwelliant arfaethedig yw £23.4 miliwn. Mae hyn yn seiliedig ar y dybiaeth y bydd pob cynnydd o £1,000 yn y terfyn cyfalaf uchaf yn costio £600,000 i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar waith asesu costau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wneud eisoes.

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 1 i'r Rheoliadau**
O blaid 14; Ymatal 11; Yn erbyn 29; Cyfanswm 54
**Gwrthodwyd Gwelliant 1 i'r Rheoliadau**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Rheoliadau**
O blaid 54; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 54
**Cymeradwywyd y Rheoliadau**

**......................................**

**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Cymru) 2005**

NDM2327 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Cymru) 2005, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Chwefror 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Rheoliadau**
O blaid 54; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 54
**Cymeradwywyd egwyddor y Rheoliadau**

NDM2328 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Chwefror 2005 mewn perthynas â'r Rheoliadau drafft, Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Cymru) 2005; a

2. Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol â:
a) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Chwefror 2005
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Chwefror 2005

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Rheoliadau**
O blaid 54; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 54
**Cymeradwywyd y Rheoliadau**

**.......................................**

***Cynnig i drafod y 2 eitem ganlynol gyda'i gilydd â phleidleisiau ar wahân***

## 3.35pm

**Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2005**

NDM2329 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2005, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Chwefror 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn**
O blaid 52; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 52
**Cymeradwywyd egwyddor y Gorchymyn**

NDM2330 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Chwefror 2005 mewn perthynas â'r Gorchymyn drafft, Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2005; a

2. Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2005 yn cael ei wneud yn unol â:
a) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Chwefror 2005
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Chwefror 2005

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Gorchymyn**
O blaid 53; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 53
**Cymeradwywyd y Gorchymyn**

**......................................**

**Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) (Dirymu) 2005**

NDM2331 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) (Dirymu) 2005, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Chwefror 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn**
O blaid 53; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 53
**Cymeradwywyd egwyddor y Gorchymyn**

NDM2332 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Chwefror 2005 mewn perthynas â'r Gorchymyn drafft, Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) (Dirymu) 2005; a

2. Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) (Dirymu) 2005 yn cael ei wneud yn unol â:
a) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Chwefror 2005
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Chwefror 2005

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Gorchymyn**
O blaid 53; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 53
**Cymeradwywyd y Gorchymyn**

......................................

## 3.52pm

**Cynnig i gymeradwyo Cyfarwyddiadau Sylweddau Ymbelydrol (Diogelwch Cenedlaethol) (Cymru) 2005 o dan Reol Sefydlog 29**

NDM2333 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 29.3 (iii):

Yn ystyried egwyddor Cyfarwyddiadau Sylweddau Ymbelydrol (Diogelwch Cenedlaethol) (Cymru) 2005, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd mewn e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 1 Mawrth 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Cyfarwyddiadau**
O blaid 30; Ymatal 0; Yn erbyn 24; Cyfanswm 54
**Cymeradwywyd egwyddor y Cyfarwyddiadau**

NDM2334 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 29.3(iii):

Yn cymeradwyo bod Cyfarwyddiadau Sylweddau Ymbelydrol (Diogelwch Cenedlaethol) (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol â'r Cyfarwyddiadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 1 Mawrth 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Cyfarwyddiadau**
O blaid 28; Ymatal 0; Yn erbyn 25; Cyfanswm 53
**Cymeradwywyd y Cyfarwyddiadau**

......................................

## 4.14pm

**Cynnig i gymeradwyo'r Gyllideb Atodol**

NDM2325 Sue Essex (Gogledd Caerdydd)

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 21.5, yn mabwysiadu'r gyllideb atodol ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2005-2006, 2006-2007 a 2007-2008, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 1 Mawrth.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 29; Ymatal 9; Yn erbyn 9; Cyfanswm 47
**Derbyniwyd y cynnig**

**......................................**

**4.34pm**

**Cynnig i gymeradwyo trosglwyddo Prif Grwp Gwariant ar ddiwedd y flwyddyn i Brif Grwp Gwariant arall o dan Reol Sefydlog 21.6**

NDM2324 Sue Essex (Gogledd Caerdydd)

Bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 21.6, yn cymeradwyo'r newidiadau i'r Prif Grwpiau Gwariant ar gyfer y flwyddyn ariannol 2004-05

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 39; Ymatal 7; Yn erbyn 6; Cyfanswm 52
**Derbyniwyd y cynnig**

**......................................**

**4.45pm**

**Cynnig i gymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig Rhif 6 (Cymru) 2004: Refeniw Ysgol Ychwanegol**

NDM2323 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

O dan Adran 88B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, ac yn unol â Rheol Sefydlog 21.11, yn cymeradwyo Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) Adroddiad Grant Arbennig Rhif 6 (Cymru) 2004 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Chwefror 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 53; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 53
**Derbyniwyd y cynnig**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.13pm**

**....................................**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mercher, 9 Mawrth 2005**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**
**Dogfennau a Osodwyd ar 2 Mawrth 2005**

Income Generation Powers of Special Health Authorities Directions 2005 - LD3554 *Dim fersiwn Gymraeg ar Gael*
Income Generation Powers of Special Health Authorities Directions 2005 - Explanatory Memorandum - LD3555 *Dim fersiwn Gymraeg ar Gael*
Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) 2005 - LD3556
The Animals and Animal Products (Import and Export) (Wales) Regulations 2005 - Regulatory Appraisal - LD3557 *Dim fersiwn Gymraeg ar Gael*
Rheoliadau Marchnata Deunyddiau Planhigion Ffrwythau (Diwygio) (Cymru) 2005 - LD3558
Rheoliadau Gwerthoedd Terfyn Ansawdd Aer (Cymru) (Diwygio) 2005 - LD3559
Gorchymyn y Gwasanaethau Tân ac Achub (Fframwaith Cenedlaethol) (Cymru) 2005 - LD3560
Gorchymyn Deddf Gofalwyr (Cyfleoedd Cyfartal) 2004 (Cychwyn) (Cymru) 2005 - LD3561
Rheoliadau Melysyddion mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2005 - LD3562
Rheoliadau Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2005 - LD3563
Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2005 - LD3564
Rheoliadau Deddf Plant 2004 (Diwygio Rheoliadau Amrywiol) (Cymru) 2005 - LD3565
Gorchymyn Deddf Plant 2004 (Cychwyn Rhif 2) 2005 - LD3566
Gorchymyn CAFCASS (Cynllun Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) 2005 - LD3567
The CAFCASS (Staff, Property, Rights and Liabilities Transfer Scheme) Order 2005 - Explanatory Memorandum - LD3568 *Dim fersiwn Gymraeg ar Gael*
Adroddiad y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar y Mesur Addysg a ystyriwyd gan y Pwyllgor ar 19 Ionawr 2005 - LD3569
Adroddiad y Pwyllgor Busnes o dan Reol Sefydlog 13.1(iii) - LD3570

**Dogfennau a Osodwyd ar 1 Mawrth 2005**

Cyfarwyddyd Sylweddau Ymbelydrol (Diogelwch Gwladol) (Cymru) 2005 - LD3543

Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Cymru) 2005 Memorandwm Cywiriadau - LD3544

The Public Audit (Wales) Act 2004 (Commencement No. 2 and Transitional Provisions and Savings) Order 2005-Regulatory Appraisal - LD3545 Dim fersiwn Gymraeg ar Gael

The Products of Animal Origin (Third Country Imports) (Wales) Regulations 2005-Regulatory Appraisal - LD3546 Dim fersiwn Gymraeg ar Gael

Cyllideb atodol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2005-2006, 2006-2007 a 2007-2008 - LD3547

Adroddiad y Pwyllgor iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar yr Adolygiad o'r Rhyng-gysylltiad rhwng Iechyd a Gofal Cymdeithasol - LD3548

**Adroddiadau Pwyllgor a Osodwyd ar 1 Mawrth 2005**

LC996 - Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Tarddu o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2005 - LD3549

LC1026 - Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2005 - LD3550

LC1027 - Rheoliadau Bwyd (Cnau Pistasio o Iran) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2005 - LD3551

LC1028 - Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2005 - LD3552

LC1043 - Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2005 - LD3553